Gwirfoddoli

Beth yw gwirfoddoli

Mae gwirfoddolwr yn rhywun sy'n cynnig gweithio am ddim i rywun sy ddim yn berthynas agos. Ni chaiff gwirfoddolwyr eu talu, ac eithrio am dreuliau parod. Pwrpas y rhain ydyw gwneud yn siŵr nad ydynt yn dioddef yn ariannol wrth fod yn wirfoddolwr. Efallai y byddant yn cael hyfforddiant syn angenrheidiol i wneud, neu i wella, eu gwaith gwirfoddol.

Mae enghreifftiau o dreuliau parod yn cynnwys:

- teithio
- galwadau ffôn o'r cartref wrth wirfoddoli
- prydau bwyd
- gofal plant neu ofal am ddibynyddion eraill

Yn aml cyflawnir gwaith gwirfoddol i elusennau a sefydliadau ddim er elw.

Nid yw'n cyfrif fel gwaith gwirfoddol os gallech chi gael eich talu am eich gwaith, a chwithau'n dewis gwrthod.

Mae enghreifftiau o waith gwirfoddol yn cynnwys:

- helpu preswylwyr mewn hostel i rai digartref
- ymweld â chleifion yn yr ysbyty
- helpu i lanhau ardal cadwraeth leol
- rhoi cyngor mewn swyddfa Cyngor ar Bopeth.

Nid oes gan wirfoddolwyr sy ddim yn cael eu talu gytundeb cyflogaeth gyda'r sefydliad y byddant yn gwirfoddoli iddo. Mae hyn yn golygu na allwch gael eich erlyn gan y sefydliad os methwch chi wneud y gwaith.

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o oriau'r wythnos y gallwch fod yn wirfoddolwr. Mae hyn yn berthnasol hefyd i'r rhan fwyaf o bobol sy'n derbyn budd-daliadau. Sut bynnag, os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau arbennig, efallai fod yna amodau y bydd yn rhaid i chi gwrdd â hwy er mwyn parhau i gael budd-dal tra byddwch yn wirfoddolwr.

Gwirfoddoli a budd-daliadau

Os ydych chi'n derbyn rhai budd-daliadau, megis Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn, nid oes rhaid i chi ddweud wrth neb pan fyddwch yn ymgymryd â gwaith gwirfoddol. Sut bynnag, os ydych yn derbyn budd-daliadau eraill, efallai fod disgwyl i chi ddweud wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith leol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwirfoddoli a Lwfans Ceisiwr Gwaith
Os ydych chi'n ddi-waith ac yn derbyn Lwfans Ceisiwr Gwaith (JSA), nid oes cyfyngiad ar y nifer o oriau y gallwch wirfoddoli ar eu cyfer. Rhaid ei fod yn rhesymol i'r person neu'r sefydliad yr ydych yn wirfoddolwr iddynt beidio'ch talu a rhaid i chi gwrdd â'r amodau canlynol. Rhaid i chi:

- ddweud wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith leol eich bod yn gwirfoddoli
- beidio cael eich talu, ac eithrio am dreuliau parod, sy ddim yn cyfrif tuag at anwybyddiad enillion y JSA
- barhau i chwilio am waith (gall gwirfoddoli gyfrif tuag at hyn, os ydyw'n gwella'ch cyfle i gael gwaith)
- barhau i fod ar gael i weithio am i fyny at 40 o oriau'r wythnos
- ofalu eich bod ar gael i gysylltu â chi os daw cyfle am swydd
- fod ar gael i fynychu cyfweliad o fewn 48 awr a chychwyn ar waith o fewn wythnos
- ddweud wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith leol am unrhyw daliadau a dderbyniwyd gennych, yn cynnwys unrhyw dreuliau yr ydych yn eu hawlio. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddangos derbynebau am y taliadau hyn i'r swyddfa Canolfan Gwaith, ac felly gwnewch yn siŵr eich bod yn eu cadw'n ddiogel.

Os ydych chi'n ddi-waith, efallai y cewch chi'r cyfle i wneud gwaith gwirfoddol fel rhan o'r cynllun **Y Fargen Newydd ('New Deal')**. Fe ddylech holi am y cynllun hwn yn eich swyddfa budd-dal leol.

Gwirfoddoli a budd-daliadau salwch
Os na allwch chi weithio oherwydd salwch neu anabledd ac rydych yn hawlio un o'r budd-daliadau canlynol, ni ddylai gwirfoddoli effeithio'ch budd-dal:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Byw i'r Anabl.

Rhaid i chi beidio derbyn unrhyw dâl am eich gwaith, ac eithrio treuliau parod.

Cyn cychwyn ar waith gwirfoddol, fe ddylech chi ddweud wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith leol beth yw eich bwriad.

Os ydych yn derbyn Lwfans Analluogrwydd, rhaid i chi fod ar gael ar gyfer cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith. Rhaid i chi ddweud wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith leol am unrhyw daliadau a dderbyniwch.

Gwirfoddoli a Chymhorthdal Incwm
Ni ddylai gwirfoddoli effeithio eich Cymhorthdal Incwm cyhyd â'ch bod yn derbyn treuliau parod yn unig.

Rhaid i chi roi gwybod i'ch swyddfa Canolfan Gwaith leol pan fyddwch yn dechrau gwirfoddoli, a dweud wrthynt am unrhyw daliadau a dderbyniwch. Rhaid i chi fod ar

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

gael i fynd i gyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith.

Gwirfoddoli a Budd-dal Tai/Budd-dal Treth Gyngor
Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Gyngor, rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol pan fyddwch chi'n dechrau gwirfoddoli. Fe ddylech chi ddweud wrthynt hefyd am unrhyw daliadau a dderbyniwch.

Gwirfoddoli a Lwfans Gofalydd
Os ydych chi'n gofalu am rywun sy'n ddifrifol anabl ac yn derbyn Lwfans Gofalydd am hynny, ni chaiff eich budd-dal ei effeithio gan wirfoddoli oni bai ei fod yn eich rhwystro rhag darparu gofal am o leiaf 35 awr bob wythnos. Rhaid i chi beidio gweithio i berthynas agos, a rhaid i chi beidio derbyn taliad am eich gwaith, ac eithrio treuliau parod. Fe ddylech chi roi gwybod i'ch swyddfa Canolfan Gwaith leol cyn dechrau gwaith gwirfoddol.

Gwirfoddoli os ydych chi'n rhiant sengl ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm.
Os ydych chi'n rhiant sengl sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, nid oes cyfyngiad ar y nifer o oriau'r wythnos y gallwch wirfoddoli ar eu cyfer. Rhaid i chi beidio gweithio i berthynas agos, a rhaid i chi beidio derbyn taliad am eich gwaith, ac eithrio treuliau parod. Fe ddylech chi roi gwybod i'ch swyddfa Canolfan Gwaith leol cyn dechrau gwaith gwirfoddol

Cymorth ychwanegol

Gwirfoddolwyr Gwasanaeth yn y Gymuned (CSV)

Mae CSV yn sefydliad sy'n hyrwyddo gwirfoddoli. Eu gwefan yw: www.csv.org.uk

Directgov
Mae gan wefan Directgov, www.direct.gov.uk, wybodaeth am wirfoddoli yn Lloegr a Chymru. Mae hyn yn cynnwys teclyn sy'n eich caniatáu chi i chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli yn eich ardal chi.

Cyngor ar Bopeth
Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn helpu pobol i ddatrys eu problemau cyfreithiol, problemau defnyddwyr ac eraill trwy gynnig cyngor am ddim, a thrwy ddylanwadu ar y rhai sy'n creu polisïau. Er mwyn gwybod mwy am gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer Cyngor ar Bopeth, yn Lloegr a Chymru ewch i: www.citizensadvice.org . Am gyfleoedd gwirfoddoli yn yr Alban gweler www.cas.org.uk

Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
Mae DWP wedi cynhyrchu Canllaw i Wirfoddoli tra ar Fudd-daliadau. Fe allwch weld y canllaw ar wefan DWP yn www.dwp.gov.uk Ewch i "Canolfan Adnoddau' ('Resource Centre), "Taflenni a Chanllawiau i fudd-daliadau a gwasanaethau' ('Leaflets and guides to benefits and services') ac yna i "Canllawiau Cyffredinol i fudd-daliadau, gwasanaethau a'r Gronfa Gymdeithasol' ('General guides to benefits, services and the Social Fund')

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 12 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr